

particularly in relation to the skin cancer drugs Zelboraf and Ipilimumab? I think that I pronounced them correctly. These drugs are available as a result of the cancer drugs fund, which is operating in other parts of the United Kingdom. Here in Wales, unfortunately, an individual in my constituency has not been able to access one of these drugs, even though his clinician has told him clearly that it would extend his life and improve his quality of life. Could we have a specific statement on the availability of those two drugs, given that they are available elsewhere?

Jane Hutt: This is an issue upon which the Minister has already reported back to the committee. We have a robust way of assessing the clinical effectiveness of cancer drugs in Wales. It is a well-tested and clinically supported policy, and I have already responded to the leader of the opposition on that matter.

chyffuriau canser y croen Zelboraf a Ipilimumab? Credaf fy mod wedi eu hynganu'n gywir. Mae'r cyffuriau hyn ar gael o ganlyniad i'r gronfa cyffuriau canser, sydd ar waith mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, yn anffodus, nid yw unigolyn yn fy etholaeth wedi gallu cael gafael ar un o'r cyffuriau hyn, er bod ei feddyg wedi dweud wrtho yn glir y byddai'n ymestyn ei oes ac yn gwella ansawdd ei fywyd. A allem gael datganiad penodol ar argaeledd y ddau gyffur hynny, o gofio eu bod ar gael mewn manau eraill?

Jane Hutt: Mae hwn yn fater y mae'r Gweinidog eisoes wedi adrodd yn ôl arno i'r pwyllgor. Mae gennym ffordd gadarn o asesu effeithiolrwydd clinigol cyffuriau canser yng Nghymru. Mae'n bolisi a roddwyd ar brawf sawl gwaith ac mae cefnogaeth glinigol iddo, ac rwyf eisoes wedi ymateb i arweinydd yr wrthblaid ar y mater hwnnw.

Datganiad: Rhaglen Dileu Twbercwlosis Buchol yng Nghymru Statement: A Programme for Eradicating Bovine Tuberculosis in Wales

The Record

The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths): Bovine tuberculosis has a significant financial and social impact on farmers and the wider community in Wales. I have visited and spoken to a number of cattle-farming families across Wales. I know from listening just how difficult it is and how the consequences can be devastating.

Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths): Mae twbercwlosis buchol yn cael effaith ariannol a chymdeithasol sylweddol ar ffermwyr a'r gymuned ehangach yng Nghymru. Rwyf wedi ymweld ac wedi siarad â nifer o deuluoedd sy'n ffermio gwartheg ledled Cymru. Rwy'n gwobod o wrando arnynt ba mor anodd yw, a bod y canlyniadau'n gallu bod yn ddinistriol.

At any one time, 10% of herds in Wales are under TB restrictions, with areas such as the intensive action area in north Pembrokeshire being particularly badly affected. The costs to industry and Government are substantial. Last year alone, the Welsh Government paid out just over £12 million in compensation for cattle slaughtered. We have a Government commitment to take a science-led approach to tackling this serious disease, and I am personally committed to the eradication of bovine TB in Wales.

Ar unrhyw adeg, mae 10% o fuchesi yng Nghymru o dan gyfyngiadau TB, ac mae ardaloedd fel yr ardal gweithredu dwys yng ngogledd sir Benfro yn cael eu heffeithio arnynt yn arbennig o ddrwg. Mae'r costau i'r diwydiant a'r Llywodraeth yn sylweddol. Y llynedd yn unig, talodd Llywodraeth Cymru ychydig dros £12 miliwn mewn iawndal am wartheg a laddwyd. Mae ymrwymiad gan y Llywodraeth i fabwysiadu ymagwedd a arweinir gan wyddoniaeth i fynd i'r afael â'r clefyd difrifol hwn, ac rwyf wedi ymrwymo'n bersonol i ddileu TB buchol yng Nghymru.

In line with this commitment, last summer I commissioned a review of the evidence base regarding the eradication of bovine TB in Wales. This was overseen by the chief scientific adviser, Professor John Harries. I would like to express my thanks to John, together with the chair of the panel, Professor Chris Gaskell, and the other members, for this important work. The report, together with a considerable amount of work led by my chief veterinary officer, has led to this strategic framework for bovine TB eradication covering the next four years.

Yn unol â'r ymrwymiad hwn, yr haf diwethaf comisiynais adolygiad o'r sail dystiolaeth ynglŷn â dileu TB buchol yng Nghymru. Goruchwyliwyd hyn gan y prif gynghorydd gwyddonol, yr Athro John Harries. Hoffwn ddiolch i John, ynghyd â chadeirydd y panel, yr Athro Chris Gaskell, a'r aelodau eraill, am y gwaith pwysig hwn. Mae'r adroddiad, ynghyd â gwaith sylweddol a arweinwyd gan fy mhrif swyddog milfeddygol, wedi arwain at y fframwaith strategol hwn ar gyfer dileu TB buchol, sy'n cwmpasu'r pedair blynedd nesaf.

The strategy acknowledges that, in building on the cattle control and biosecurity measures, we must deal with all sources of bovine TB, including wildlife, if we are going to achieve our goal of eradicating this debilitating disease within the intensive action area and in Wales. For this reason, I have considered a range of options, including whether culling or vaccination of badgers is appropriate. After careful consideration I have decided to pursue a badger vaccination project. I have asked my chief veterinary officer to design the project to begin in the intensive action area this summer and continue for five years. I have also asked her to consider other geographical areas where vaccination could contribute to TB eradication. My intention is that the projects are

Mae'r strategaeth yn cydnabod bod yn rhaid inni, wrth ddatblygu ar sail y mesurau rheoli gwartheg a'r mesurau bioddiogelwch, ymdrin â phob ffynhonell o TB buchol, gan gynnwys bywyd gwyllt, os ydym am gyrraedd ein nod o ddileu'r clefyd gwanychol hwn o fewn yr ardal gweithredu dwys ac yng Nghymru. Am y rheswm hwn, rwyf wedi ystyried amryw o opsiynau, gan gynnwys ystyried a yw difa neu frechu moch daear yn briodol. Ar ôl ystyried yn ofalus, rwyf wedi penderfynu mynd ar drywydd prosiect brechu moch daear. Gofynnais i'm prif swyddog milfeddygol gynllunio'r prosiect fel y bydd yn dechrau yn yr ardal gweithredu dwys yn ystod yr haf ac yn parhau am bum mlynedd. Gofynnais iddi hefyd ystyried ardaloedd daearyddol eraill lle gallai brechu gyfrannu at ddileu TB. Fy mwriad yw bod y

developed to ensure that the potential effect can be monitored with a view to assessing impact.

prosiectau'n cael eu datblygu i sicrhau y gellir monitro'r canlyniadau posibl, gyda'r bwriad o asesu'r effaith.

Dirprwy Lywydd, this has been a difficult decision to take and, in making it, I have considered the likely benefits that culling or vaccination could have. Any decision to cull would need to be justified on the basis that it would be necessary to eliminate or substantially reduce the incidence of bovine TB in cattle. In determining this matter, I have considered the evidence provided to me, including scientific and legal advice. I have noted the advice on the potential benefits that might be obtained from vaccination or culling. My conclusion is that I am not at present satisfied that a cull of badgers would be necessary to bring about a substantial reduction in the incidence of bovine TB in cattle. In which case, I cannot authorise a cull under the Animal Health Act 1981.

Ddirprwy Lywydd, bu hwn yn benderfyniad anodd ei wneud, ac wrth ei wneud, rwyf wedi ystyried y manteision y byddai brechu neu ddifa yn debygol o'u creu. Byddai angen cyfiawnhau unrhyw benderfyniad i ddifa ar y sail bod gwneud hynny'n angenrheidiol er mwyn dileu neu leihau yn sylweddol yr achosion o TB buchol. Wrth benderfynu ar y mater hwn, rwyf wedi ystyried y dystiolaeth a ddarparwyd i mi, gan gynnwys cyngor gwyddonol a chyfreithiol. Rwyf wedi nodi'r cyngor ar y manteision posibl a allai ddod yn sgil brechu neu ddifa. Fy nghasgliad yw nad wyf yn fodlon ar hyn o bryd y byddai angen difa moch daear i sicrhau gostyngiad sylweddol yn nifer yr achosion o TB buchol. Ni allaf felly awdurdodi difa o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981.

The fact that I intend to authorise vaccination at present does not, and will not, preclude me from considering whatever further or new options may be appropriate and available at any time. In taking the programme forward we will continue to work with the agriculture industry, wider rural communities, the veterinary profession, eradication boards, and the industry advisory group in the intensive action area. These all have an important role in the eradication of bovine TB in Wales.

Nid yw'r ffaith fy mod yn bwriadu awdurdodi brechu ar hyn o bryd yn golygu na fyddaf yn ystyried pa opsiynau pellach neu opsiynau newydd allai fod yn briodol ac ar gael ar unrhyw adeg. Wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen, byddwn yn parhau i weithio gyda'r diwydiant amaeth, cymunedau gwledig ehangach, y proffesiwn milfeddygol, byrddau dileu, a grŵp cynghori'r diwydiant yn yr ardal gweithredu dwys. Mae gan y rhain i gyd rôl bwysig yn y gwaith o ddileu TB buchol yng Nghymru.

Our new strategic framework describes our comprehensive approach, which has been approved by the European Union as part of the UK TB eradication plan, as being necessary to achieve eradication. Proposed policy changes include improvement in the management of long-running and persistent TB herd breakdowns; the piloting of an audit of TB testing carried out by official veterinarians in Wales; a voluntary scheme to see how bovine TB breakdown data may be made available to neighbouring farms; and the establishment of an advisory service that will provide a full range of business and personal support to farmers affected by TB. All of these measures are aimed at ensuring that we continue to take a robust and consistent approach in dealing with this epidemic.

Mae'n fframwaith strategol newydd yn nodi bod ein dull cynhwysfawr, a gymeradwywyd gan yr Undeb Ewropeaidd fel rhan o gynllun dileu TB y DU, yn angenrheidiol i gyflawni'r nod o ddileu. Mae'r newidiadau polisi arfaethedig yn cynnwys gwella'r gwaith o reoli TB hirhoedlog a pharhaus mewn buchesi; treialu archwiliad o brofion TB a gynhaliwyd gan filfeddygon swyddogol yng Nghymru; cynllun gwirfoddol i weld sut y gellir rhyddhau data am TB buchol i ffermydd cyfagos; a sefydlu gwasanaeth ymgynghorol a fydd yn darparu ystod lawn o gymorth busnes a phersonol i ffermwyr yr effeithiwyd arnynt gan TB. Anelir bob un o'r mesurau hyn at sicrhau ein bod yn parhau i ymdrin â'r epidemig hon mewn ffordd gadarn a chyson.

TB eradication is a long-term commitment that will require the application of new technologies and scientific developments as they become available. For example, there are technical and legal reasons why cattle vaccination is not currently a viable option. However, in order to put Wales at the forefront, if it does become available, I have asked my chief veterinary officer to convene a working group of experts to prepare for a cattle vaccination strategy.

Mae dileu TB yn ymrwymiad tymor hir a fydd yn gofyn am ddefnyddio technolegau a datblygiadau gwyddonol newydd wrth iddynt gael eu cyflwyno. Er enghraifft, mae rhesymau technegol a chyfreithiol pam nad yw brechu gwartheg yn ddewis ymarferol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, er mwyn rhoi Cymru ar flaen y gad, os yw'n dod ar gael, gofynnais i'm prif swyddog milfeddygol gynnwyl gweithgwr o arbenigwyr i baratoi ar gyfer strategaeth brechu gwartheg.

All involved in these matters are united in wanting to see this terrible disease eradicated as quickly as possible. Unfortunately, as the science review states, there are no easy or quick solutions. In order to take further steps to work towards eradication, it is crucial that Government and the farming industry continue to work together towards our shared aim. The steps that we are taking now are designed to make progress towards the ultimate goal of a TB-free Wales. That is the purpose of our renewed comprehensive strategy and vaccination programme.

Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r materion hyn yn unfryd yn eu hawydd i weld y clefyd dychrynlyd hwn yn cael ei ddileu cyn gynted ag y bo modd. Yn anffodus, fel y dywed yr adolygiad gwyddoniaeth, nid oes atebion hawdd na chyflym. Er mwyn cymryd camau pellach i weithio tuag at ei ddileu, mae'n hanfodol bod y Llywodraeth a'r diwydiant ffermio yn parhau i weithio gyda'i gilydd tuag at y nod a rannwn. Bwriad y camau yr ydym yn eu cymryd yn awr yw gwneud cynnydd at y nod yn y pen draw o greu Cymru heb TB. Dyna ddiben ein strategaeth gynhwysfawr newydd a'r rhaglen frechu.

Antoinette Sandbach: I thank the Minister for his statement. Bovine TB represents one of the most serious and long-standing threats to animal health in Wales. It is a

Antoinette Sandbach: Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. TB buchol yw un o'r bygythiadau mwyaf difrifol a hirhoedlog i iechyd anifeiliaid yng Nghymru. Mae'n glefyd

disease that has devastated farm businesses and has taken a heavy toll on farmers and their families. Bovine TB is a disease for which Governments in this Assembly are uniquely responsible, but, under the watchful gaze of a succession of Ministers, the incidence of this disease, the numbers of cattle culled and the cost to the taxpayer have snowballed to their current levels, which are completely unsustainable.

sydd wedi difetha busnesau fferm ac sydd wedi cael effaith drom ar ffermwyr a'u teuluoedd. Mae TB buchol yn glefyd y mae Llywodraethau'r Cynulliad hwn yn unig yn gyfrifol amdano, ond, o dan olwg barcud cyfres o Weinidogion, mae nifer yr achosion o'r clefyd hwn, nifer y gwartheg a gafodd eu difa a'r gost i'r trethdalwr wedi cynyddu i'w lefelau cyfredol, sy'n hollol anghynaliadwy.

I welcome your commitment to a scientific approach. Your scientific report clearly states, at point 6, there is an evidence-based consensus that there is an association between bovine TB infection in badgers and in cattle in areas where the infection occurs in both species. I welcome your indication that you are not ruling out a cull in the future. It is quite clear, at point 8, that there is a scientific consensus, based on expert opinion, that a reduction in the incidence of bovine TB cattle herd breakdowns associated with the culling of badgers within an area requires the fulfilment of a series of criteria, including a large area of land, a high level of land-manager compliance, an effective and sustained cull, and, where possible, boundaries that are impervious to badger movement. However, your decision to abandon the previous Government's eradication strategy, which you and your Cabinet colleagues voted in favour of less than a year ago, and which had cross-party support, will come as a bitter blow to rural Wales, and many farmers in the TB hot spots will feel that their hope—the light at the end of the tunnel—has been snuffed out.

Croesawaf eich ymrwymiad i fabwysiadu ymagwedd wyddonol. Dywed eich adroddiad gwyddonol yn glir ym mhwynt 6 fod consensws sy'n seiliedig ar dystiolaeth bod cysylltiad rhwng haint TB buchol mewn moch daear a gwartheg mewn ardaloedd lle mae'r haint yn digwydd yn y ddwy rywogaeth. Croesawaf eich sylw nad ydych yn diystyru difa anifeiliaid yn y dyfodol. Mae'n eithaf amlwg ym mhwynt 8 fod consensws gwyddonol, sy'n seiliedig ar farn arbenigwyr, fod angen bodloni cyfres o feini prawf er mwyn gostwng nifer yr achosion o TB mewn buchesi drwy ddifa moch daear mewn ardal. Maent yn cynnwys: ardal fawr o dir; lefel uchel o gydymffurfiaeth rheoli tir; difa effeithiol a pharhaus; a, lle bo hynny'n bosibl, ffiniau sy'n gaeëdig i symudiadau moch daear. Fodd bynnag, mae eich penderfyniad i roi'r gorau i strategaeth ddileu y Llywodraeth flaenorol, y gwnaethoch chi a'ch cyd-Aelodau bleidleisio o'i phlaid lai na blwyddyn yn ôl, ac a gafodd gefnogaeth drawsbleidiol, yn ergyd drom i gefn gwlad Cymru, a bydd llawer o ffermwyr yn yr ardaloedd lle y mae TB ar ei waethaf yn teimlo bod eu gobaith—y goleuni ym mhen draw'r twnel—wedi diflannu.

You have made your decision, Minister, and I would be grateful if you could answer the following questions. In relation to the decision not to cull, given that hot spot culling would have affected fewer than 1,400 badgers out of a population of 35,000, can you expand on why your Government has chosen to ignore the wealth of information—from the randomised badger culling trial, from the Thornbury trial and from other countries that have managed to eradicate TB in cattle—that supports the culling of infected wildlife as part of an overall eradication strategy? Can you confirm what guidance you have received from the chief veterinary officer on your decision and whether your Government's new policy is her own preferred option? Will you publish all of the advice that you have received?

Rydych wedi gwneud eich penderfyniad, Weinidog, a byddwn yn ddiolchgar pe gallech ateb y cwestiynau a ganlyn. Mewn perthynas â'r penderfyniad i beidio â difa, o gofio y byddai difa mewn ardaloedd lle y mae TB ar ei waethaf wedi effeithio ar lai na 1,400 o foch daear o boblogaeth o 35,000, a allwch ymhelaethu ar pam mae eich Llywodraeth wedi dewis anwybyddu'r cyfoeth o wybodaeth—o'r hap-dreial difa moch daear, o brawf Thornbury ac o wledydd eraill a lwyddodd i ddileu TB mewn gwartheg—sy'n cefnogi difa bywyd gwyllt heintiedig fel rhan o strategaeth ddileu gyffredinol? A allwch chi gadarnhau pa ganllawiau a gawsoch gan y prif swyddog milfeddygol ar eich penderfyniad, ac mai polisi newydd eich Llywodraeth yw'r dewis y mae hi'n ei ffafrio? A wnewch chi ghoeddi'r holl gyngor a gawsoch?

2.45 p.m.

In relation to the vaccination of badgers, what assessment has been made of the effectiveness of this policy over time, and what is your estimate of the cost compared with that of the previous policy? How many generations of badgers will it take to achieve a significant reduction, and how does the effectiveness of this approach compare with a methodology that includes culling? In relation to the European requirements, what confidence do you have, Minister, that your plans will receive the approval of the European Commission and are fully compliant with Wales's legal duties to have an effective eradication programme under the relevant directives, and will you indemnify Scotland or England if your policy fails in Wales and leads to more bovine TB infections?

Mewn perthynas â brechu moch daear, pa asesiad a wnaed o effeithiolrwydd y polisi hwn dros amser, a beth yw eich amcangyfrif o'r gost o gymharu â chost y polisi blaenorol? Faint o genedlaethau o foch daear y bydd yn ei gymryd i sicrhau gostyngiad sylweddol, a sut mae effeithiolrwydd y dull hwn yn cymharu â methodoleg sy'n cynnwys difa? Mewn perthynas â'r gofynion Ewropeaidd, faint o hyder sydd gennych, Weinidog, y bydd eich cynlluniau yn cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd a'u bod yn cydymffurfio'n llawn â dyletswyddau cyfreithiol Cymru i gael rhaglen ddileu effeithiol o dan y cyfarwyddbau perthnasol, ac a fyddwch yn digolledu'r Alban neu Loegr os yw eich polisi yn methu yng Nghymru ac yn arwain at fwy o achosion o TB buchol?

Finally, in relation to cattle testing, can you indicate what consideration has been given to improving accuracy in the testing regime to reduce false positives and to distinguish between latent and active infection in cattle? Finally, what

Yn olaf, mewn perthynas â phrofi gwartheg, a allwch chi nodi pa ystyriaeth a roddwyd i wella cywirdeb yn y drefn brofi i leihau'r achosion o ganlyniadau positif ffug ac i wahaniaethu rhwng haint cudd a haint gweithredol mewn gwartheg? Yn

role did the threat of legal action by the Badger Trust play in your decision making? Minister, you have thrown away the goodwill of farmers and cross-party support in this Assembly with this decision today.

John Griffiths: Antoinette Sandbach refers to previous policy, but, with regard to that previous policy, not a single badger has been culled, whereas we will now get on and vaccinate badgers in the intensive action area this summer, over the next few months. What we were faced with in terms of a cull was the science review pointing to levels of uncertainty over any course of action, and a legal situation of quite a difficult threshold test to be passed under the Animal Health Act 2002 before any culling could occur. In many ways, it equates to getting bogged down in further legal proceedings or getting on with vaccinating and actually doing something about the wildlife position as far as bovine TB is concerned.

Turning to the specific issues that the Member raised, we did, in fact, see a reduction in incidence in 2009 and 2010, after a peak in 2008. In terms of the statistics that we currently have for last year, the disease picture has stabilised. Therefore, we have made some progress in dealing with this epidemic. The comprehensive eradication strategy continues, of course, with the vaccination programme as the element that will address the wildlife part of the equation. The chief veterinary officer supported the work of the review panel, gave evidence to that panel, and will take forward the vaccination strategy over the next five years in the intensive action area and the comprehensive strategy as a whole. The submission that I have received to advise me on these matters will be published. The estimated cost is around £1 million per year for the vaccination programme in the intensive action area, but those costs may be revised as we go forward to implementation. The European Union has approved the UK 2012 comprehensive strategy and the Wales programme as part of that.

As far as testing is concerned, I mentioned that the Animal Health and Veterinary Laboratory Agency will be doing some work on testing in the intensive action area to ensure that we make any necessary improvements to the testing regime. Finally, there will, of course, be varying views on the announcement that I have made today, but we all have a shared aim, as I said in my statement. Everybody in Wales with a stake in this wishes to eradicate this terrible disease, with all of the awful impacts that we know about, and the only way that that will be done is if we continue to work in partnership. As I said at the beginning of my response to Antoinette Sandbach, we now have the opportunity to get on in short order and actually do something about the wildlife part of this equation.

Llyr Huws Gruffydd: Mae awyr las dros fae Caerdydd heddiw, ond rwy'n ofni ei bod yn ddiwrnod du i nifer o gymunedau gwledig Cymru. Mae buddiannau'r gymuned amaethyddol wedi llithro'n is ac yn is ar restr flaenoriaethau'r Llywodraeth hon ers ei hethol wyth i naw o fisoedd yn ôl. Heddiw, mae'r modd yr ydych wedi bradychu'r gymuned amaethyddol yn nodi isafbwynt yn y berthynas rhwng ffermwyr a Llywodraeth Cymru. Mae'r Llywodraeth wedi torri'r cytundeb a darwyd gydag amaethwyr i fynd i'r afael â TB mewn gwartheg.

olaf, pa ran wnaeth y bygythiad o gamau cyfreithiol gan yr Ymddiriedolaeth Moch Daear ei chwarae yn eich penderfyniad? Weinidog, rydych wedi taflu ewyllys da'r ffermwyr a chefnogaeth drawsbleidiol yn y Cynulliad i'r gwynt gyda'r penderfyniad hwn heddiw.

John Griffiths: Cyfeiria Antoinette Sandbach at bolisi blaenorol, ond, o ran y polisi blaenorol hwnnw, nid oes yr un mochyn daear wedi cael ei ddifa, ond byddwn yn awr yn mynd ati i frechu moch daear yn yr ardal gweithredu dwys yn yr haf, dros y misoedd nesaf. Yr hyn yr oeddem yn ei wynebu o ran y rhaglen ddifa oedd bod yr adolygiad gwyddonol yn cyfeirio at lefelau o ansicrwydd ynghylch unrhyw ffordd o weithredu, a sefyllfa gyfreithiol o ran prawf trothwy a fyddai'n eithaf anodd ei basio o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 cyn y gallai unrhyw ddifa ddigwydd. Mewn nifer o ffyrdd, mae'n cyfateb i gael ein llethu gan achosion cyfreithiol pellach neu i fwrw ymlaen â'r rhaglen frechu a gwneud rhywbeth am y sefyllfa bywyd gwyllt mewn perthynas â TB buchol.

Gan droi at y materion penodol a gododd yr Aelod, gwelwyd gostyngiad, mewn gwirionedd, yn nifer yr achosion yn 2009 a 2010, ar ôl iddynt gyrraedd uchafbwynt yn 2008. O ran yr ystadegau sydd gennym ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf, mae'r darlun o'r clefyd wedi sefydlogi. Felly, rydym wedi gwneud rhywfaint o gynnydd wrth ymdrin â'r epidemig hwn. Mae'r strategaeth gynhwysfawr i ddileu yn parhau, wrth gwrs, a'r rhaglen frechu yw'r elfen a fydd yn mynd i'r afael â rhan bywyd gwyllt yn y rhaglen. Roedd y prif swyddog milfeddygol yn cefnogi gwaith y panel adolygu, rhoddodd dystiolaeth i'r panel hwnnw, a bydd yn bwrw ymlaen â'r strategaeth frechu dros y pum mlynedd nesaf yn yr ardal gweithredu dwys a'r strategaeth gynhwysfawr yn ei chyfanrwydd. Bydd y cyflwyniad a gefais a oedd yn fy nghyngori ar y materion hyn yn cael ei gyhoeddi. Amcangyfrifir mai'r gost yw tua £1 filiwn y flwyddyn ar gyfer y rhaglen frechu yn yr ardal gweithredu dwys, ond efallai y caiff y costau hynny eu hadolygu wrth i ni symud ymlaen i weithredu. Mae'r Undeb Ewropeaidd wedi cymeradwyo strategaeth gynhwysfawr 2012 y DU a rhaglen Cymru fel rhan o hynny.

O ran y profion, soniais y bydd yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol yn gwneud rhywfaint o waith profi yn yr ardal gweithredu dwys er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gyfundrefn brofi. Yn olaf, bydd safbwyntiau gwahanol ar y cyhoeddiad a wneuthum heddiw, wrth gwrs, ond yr un yw ein nod ni oll, fel y dywedais yn fy natganiad. Mae pawb yng Nghymru sydd â rhan yn hyn am i'r clefyd ofnadwy hwn gael ei ddileu, ynghyd â'r holl effeithiau ofnadwy y gwyddom amdanynt, a'r unig ffordd y caiff hynny ei wneud yw os byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth. Fel y dywedais ar ddechrau fy ymateb i Antoinette Sandbach, mae gennym gyfle nawr i fynd ati ar unwaith i wneud rhywbeth gwirioneddol am y rhan sydd gan fywyd gwyllt i'w chwarae yn hyn.

Llyr Huws Gruffydd: There are blue skies over Cardiff bay today, but I am afraid that it is a bleak day for many rural communities in Wales. The interests of the agricultural community have slipped lower and lower on this Government's list of priorities since it was elected eight or nine months ago. Today, the way that you have betrayed the agricultural community marks a low point in the relationship between farmers and the Welsh Government. The Government has broken the agreement that was made with farmers to get to grips with bovine TB.

The inaction of previous Labour Governments let this disease take hold and spiral out of control. When we in Plaid Cymru were in Government, we showed backbone and leadership to get to grips with this issue. The science around culling is clear and unchanged, and that is beyond any doubt.

Mae diffyg gweithredu Llywodraethau Llafur blaenorol wedi caniatáu i'r clefyd hwn ddal ei afael a mynd allan o reolaeth. Pan oeddem ni ym Mhlaid Cymru yn y Llywodraeth, dangoswyd asgwrn cefn ac arweiniad i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae'r wyddoniaeth ynghylch difa yn glir ac yn ddiglyfnewid, ac nid oes unrhyw amheuaeth am hynny.

The focus now falls on vaccination, and we know that vaccination prevents; it does not cure. I presume, therefore, that diseased badgers will need to be removed. Perhaps you could expand a little on your plans in that regard. An injectable vaccine presents a host of practical challenges: to cage-trap badgers, to inject them, to release them and so on. We know about the trials that are currently under way in Gloucestershire, which are also running for five years. Is this duplication, perhaps? Who knows? It will be years until we know the final outcome. It is unproven in field conditions, and I also want you to comment on the potential for perturbation effects as well, which are always raised in relation to vaccination.

Mae'r ffocws nawr ar frechu, a gwyddom fod brechu'n atal; nid yw'n iacháu. Rwy'n tybio, felly, y bydd angen cael gwared ar foch daear sydd wedi'u heintio. Efallai y gallech ehangu ychydig ar eich cynlluniau yn hynny o beth. Mae llw o heriau ymarferol yn gysylltiedig â brechlyn chwistrellu: dal moch daear mewn cewyll, rhoi pigiad iddynt, eu rhyddhau ac ati. Gwyddom am y treialon sy'n cael eu cynnal yn Swydd Gaerloyw ar hyn o bryd, sydd hefyd yn cael eu cynnal am bum mlynedd. Ai dyblygu yw hyn, efallai? Pwy a wŷr? Bydd yn flynyddoedd nes y cawn wybod y canlyniad terfynol. Nid yw wedi ei brofi mewn amodau maes, a hoffwn i chi wneud sylwadau ar botensial effeithiau aflonyddwch hefyd, sy'n cael eu codi bob amser mewn perthynas â brechu.

From the modelling we have, without field trials at the moment, I understand that the prediction is that there is a potential for a 9% reduction in bovine TB over five years with a vaccination operation, and a 19% reduction in herd breakdowns in 10 years in the core area, compared with 34% for a cull and 40% for a cull with ring vaccination. Those are the best statistics that we have, and it seems to me that you are settling for the least effective of the options.

O'r modelu sydd gennym, heb dreialon maes ar hyn o bryd, rwy'n deall mai'r rhagfynegiad yw bod potensial ar gyfer gostyngiad o 9% mewn TB buchol dros bum mlynedd drwy frechu, a gostyngiad o 19% mewn achosion o chwalu buchesau ymhen 10 mlynedd yn yr ardal graidd, o'i gymharu â 34% ar gyfer difa llawn a 40% ar gyfer difa gyda brechu cylch. Dyna'r ystadegau gorau sydd gennym, ac mae'n ymddangos i mi eich bod yn dewis yr opsiwn lleiaf effeithiol.

We all want to see effective vaccination policies being adopted, but such a policy does not exist at the moment. The only evidence available suggests that vaccination would be less effective than other approaches. You mention in your statement that you want to move forward with the co-operation of the wider farming community and various stakeholders. We know that the way that this Government has treated those stakeholders recently suggests that you might find co-operation difficult to come by. I hope that there will be co-operation, but you have a lot of work to do to repair the damage that has been done in order to regain the trust and confidence of the sector.

Rydym oll am weld polisiau brechu effeithiol yn cael eu mabwysiadu, ond nid oes polisi o'r fath yn bodoli ar hyn o bryd. Mae'r unig dystiolaeth sydd ar gael yn awgrymu y byddai brechu yn llai effeithiol na dulliau eraill. Rydych yn sôn yn eich datganiad eich bod yn dymuno symud ymlaen gyda chydweithrediad y gymuned ffermio ehangach a rhanddeiliaid amrywiol. Gwyddom fod y ffordd y mae'r Llywodraeth hon wedi trin y rhai rhanddeiliaid hyn yn ddiweddar yn awgrymu y gallai fod yn anodd i chi gael y cydweithrediad hwnnw. Gobeithio y bydd cydweithrediad, ond mae llawer o waith o'ch blaen i unioni'r cam sydd wedi cael ei wneud er mwyn adennill ffydd a hyder y sector.

I hope that you will publish all of the advice that you have received and the submission that was given to you. Your predecessor did so, and I expect you to follow suit, particularly in relation to the information that you received from your chief scientific officer and your chief veterinary officer, and particularly in relation to the report that was prepared by the panel.

Gobeithio y byddwch yn cyhoeddi'r holl gyngor yr ydych wedi'i gael a'r cyflwyniad a roddwyd i chi. Gwnaeth eich rhagflaenydd hynny, ac rwy'n disgwyl i chi wneud yr un peth, yn enwedig mewn perthynas â'r wybodaeth a gawsoch gan eich prif swyddog gwyddonol a'ch prif swyddog milfeddygol, ac yn enwedig mewn perthynas â'r adroddiad a baratowyd gan y panel.

How long will we need to wait for any benefits that may not accrue from the vaccination of badgers before you make the decision on a cull? In other words, how bad will the situation have to get before you come to a conclusion that a cull is a necessary part of the equation? I did a quick word count and the word 'vaccine' or 'vaccination' appears nearly 40 times and the word 'cull' only once: perhaps that reflects the degree of consideration that you have really given to that option.

Pa mor hir y bydd angen i ni aros am unrhyw fuddion y mae'n bosibl na fyddant yn deillio o'r broses o frechu moch daear cyn i chi wneud y penderfyniad i ddifa? Mewn geiriau eraill, pa mor ddrwg y bydd angen i'r sefyllfa fod cyn i chi ddod i'r casgliad bod difa yn rhan angenrheidiol o'r gwaith? Cyfrais yn gyflym ac mae'r gair 'brechlyn' neu 'frechu' yn ymddangos bron i 40 gwaith a dim ond unwaith y mae'r gair 'difa' yn ymddangos: efallai bod hynny'n adlewyrchu faint rydych wedi ystyried yr opsiwn hwnnw mewn gwirionedd.

I hope that you recognise the anger and frustration that will follow your announcement today. If not, you have an even more difficult task ahead of you. Minister, it is clear to me that you and your Government are swimming against the scientific tide. England is undertaking a cull, and Northern Ireland is considering a cull, but you are not.

Gobeithio eich bod yn cydnabod y dicter a'r rhwystredigaeth a deimlir yn dilyn eich cyhoeddiad heddiw. Os nad ydych, mae gennych dasg sy'n fwy anos byth o'ch blaen. Weinidog, mae'n amlwg i mi eich bod chi a'ch Llywodraeth yn nofio yn erbyn y llif gwyddonol. Mae Lloegr yn cynnal rhaglen ddifa, ac mae Gogledd Iwerddon yn ystyried difa, ond nid ydych chi.

We know that 700 cattle fail their TB test and are slaughtered every month, but today, once again, Minister, you and your Government have failed your TB test.

Gwyddom fod 700 o wartheg yn methu eu prawf TB ac yn cael eu lladd bob mis, ond heddiw, unwaith eto, Weinidog, rydych chi a'ch Llywodraeth wedi methu eich prawf TB.

John Griffiths: I assure the Member that I carefully considered all options and, in particular, whether vaccination or culling was the best way forward in the intensive action area. I am doing what I consider to be right and the best course of action. Llyr, you referred to the previous Government; I said earlier that not a single badger was culled during the course of the previous Government. We all know about the legal difficulties, as well as the scientific uncertainties that are set out in the scientific review and elsewhere. We are going to get on and do something and vaccinate badgers in the intensive action area.

John Griffiths: Rwy'n sicrhau'r Aelod fy mod wedi ystyried yr holl opsiynau'n ofalus ac, yn benodol, ai brechu neu ddifa oedd y ffordd orau ymlaen yn yr ardal gweithredu dwys. Yr wyf yn gwneud yr hyn yr wyf yn ei ystyried yn gywir a chredaf mai hon yw'r ffordd orau o weithredu. Llyr, cyfeiriasoch at y Llywodraeth flaenorol; dywedais yn gynharach nad oedd yr un mochyn daear wedi cael ei ddifa yn ystod y Llywodraeth flaenorol. Gwyddom i gyd am yr anawsterau cyfreithiol, yn ogystal â'r ansicrwydd gwyddonol a nodir yn yr adolygiad gwyddonol ac mewn mannau eraill. Rydym am fynd ati i wneud rhywbeth a brechu moch daear yn yr ardal gweithredu dwys.

We will, of course, continue to work in partnership with cattle farmers and other stakeholders in the intensive action area and across Wales. Our investment in the intensive action area has been to the tune of millions of pounds over the last few years, and we have also invested a great deal of the time and energy of our officials. The vaccination programme in the intensive action area will cost several million pounds over the next five years. Therefore, we have a strong commitment to the intensive action area and are taking a comprehensive approach, including dealing with the wildlife element.

Byddwn, wrth gwrs, yn parhau i weithio mewn partneriaeth â ffermwyr gwartheg a rhanddeiliaid eraill yn yr ardal gweithredu dwys a ledled Cymru. Rydym wedi buddsoddi miliynau o bunnoedd yn yr ardal gweithredu dwys dros y blynyddoedd diwethaf, ac rydym hefyd wedi buddsoddi llawer iawn o amser ac ynni ein swyddogion. Bydd y rhaglen frechu yn yr ardal gweithredu dwys yn costio nifer o filiynau o bunnoedd dros y pum mlynedd nesaf. Felly, mae gennym ymrwymiad cryf i'r ardal gweithredu dwys ac rydym yn gweithio mewn ffordd gynhwysfawr, ac rydym hefyd yn ymdrin â'r elfen bywyd gwyllt.

You mentioned perturbation. The advice that I have seen suggests that perturbation is not considered to be a significant factor with vaccination. It is considered to be a significant factor as far as culling is concerned. There is a figure for vaccination and a field study that shows that vaccinating badgers delivers resistance to the disease. The statistic from that study was 74% of uninfected badgers having a degree of resistance to the disease.

Soniasoch am aflonyddu. Mae'r cyngor a welais i yn awgrymu nad yw aflonyddu yn cael ei ystyried yn ffactor arwyddocaol mewn cysylltiad â brechu. Mae'n cael ei ystyried yn ffactor arwyddocaol mewn cysylltiad â difa. Ceir ffigur ar gyfer brechu ac astudiaeth maes sy'n dangos bod brechu moch daear yn sicrhau y gellir gwrthsefyll y clefyd. Yr ystadegyn o'r astudiaeth honno oedd bod 74% o'r moch daear sydd heb eu heintio yn gallu gwrthsefyll y clefyd i raddau.

You mentioned modelling. Obviously, modelling figures have to be considered with some caution, and there are various modelling figures for either culling or vaccination. I said earlier that the science demonstrates varying degrees of uncertainty with regard to any of the measures involved in the strategy to deal with bovine TB, and that is the situation that we face. On top of that, as I have said, there are very considerable legal difficulties. However, we can now get on and vaccinate, rather than being potentially bogged down in legal proceedings, as was the experience previously.

Soniasoch am fodelu. Yn amlwg, rhaid ystyried ffigurau modelu yn ofalus, ac mae ffigurau modelu gwahanol naill ai ar gyfer difa neu frechu. Dywedais yn gynharach fod y wyddoniaeth yn dangos gwahanol raddau o ansicrwydd o ran unrhyw rai o'r mesurau sy'n ymwneud â'r strategaeth i ymdrin â TB buchol, a dyna'r sefyllfa rydym yn ei hwynebu. Ar ben hynny, fel y dywedais, mae anawsterau cyfreithiol sylweddol iawn. Fodd bynnag, gallwn bellach symud ymlaen i frechu, yn hytrach na wynebu'r posibilrwydd o gael ein llethu gan achos cyfreithiol, fel y digwyddodd o'r blaen.

As I said earlier, the submission that I have received will be published. The Member also asked how long it would be before benefits are monitored and assessed. We will monitor continually as we move forward with this vaccination programme. It is clear from the scientific review that there are no quick or easy solutions to bovine TB, unfortunately, and I think that everyone has to realise that. For example, the scientific review states that a cull would deliver little or no benefit in the early years. We will now get on and vaccinate and do something about the wildlife element in the intensive action area.

Fel y dywedais yn gynharach, bydd y cyflwyniad a gefais yn cael ei gyhoeddi. Gofynnodd yr Aelod hefyd faint o amser fydd nes y caiff y manteision eu monitro a'u hasesu. Byddwn yn monitro'n barhaus wrth i ni symud ymlaen gyda'r rhaglen frechu hon. Mae'n amlwg o'r adolygiad gwyddonol nad oes unrhyw atebion cyflym na rhwydd i'r broblem TB buchol, yn anffodus, a chredaf fod angen i bawb sylweddoli hynny. Er enghraifft, mae'r adolygiad gwyddonol yn datgan mai ychydig iawn o fanteision fyddai rhaglen ddifa yn eu sicrhau yn y blynyddoedd cynnar, os o gwbl. Byddwn yn awr yn mynd ati i frechu a gwneud rhywbeth am yr elfen bywyd gwyllt yn yr ardal gweithredu dwys.

William Powell: Today is a pretty grim day for rural Wales. I thank the Minister for his statement. While views on a solution to the appalling problem of bovine tuberculosis vary considerably across Wales, there is no

William Powell: Mae heddiw yn ddiwrnod eithaf du i Gymru wledig. Diolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad. Er bod y farn ynghylch y ffordd o ddatrys y broblem ofnadwy o dwbercwlosis buchol yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru,

doubt whatsoever that there will be a huge degree of disappointment in farming communities across this country. Without wishing to go over the same ground as Antoinette Sandbach and Llyr Huws Gruffydd, I am keen to highlight the damage that has been done by the extended period of uncertainty and indecision that we have had following last July's pause.

nid oes amheuaeth o gwbl y bydd siom enfawr mewn cymunedau ffermio ledled y wlad hon. Nid wyf am fynd dros yr un tir ag Antoinette Sandbach a Llyr Huws Gruffydd, ond yr wyf yn awyddus i dynnu sylw at y difrod sydd wedi cael ei wneud gan y cyfnod estynedig o ansicrwydd a diffyg penderfyniad a gawsom ers y cyfnod o oedi fis Gorffennaf diwethaf.

3.00 p.m.

I am afraid to say that today's announcement does little to alleviate that uncertainty, frustration and anger. As the Farm Crisis Network highlighted in its most recent report from 2009, the existence of bovine TB is causing enormous distress to farmers and their families, with 20% of those interviewed admitting that they were either panicked or devastated by the news of the latest outbreak. A further 50% were deeply worried by the news. Farmers' reactions ranged between feeling the pressure but coping through to actual physical illness caused by the stress and associated worry of this devastating pestilence.

Mae arnaf ofn dweud nad yw cyhoeddiad heddiw yn gwneud llawer i leddfu'r ansicrwydd, y rhwystredigaeth a'r dicter hwnnw. Fel y dywedodd y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio yn ei adroddiad diweddaraf yn 2009, mae bodolaeth TB gwartheg yn peri gofid mawr i ffermwyr a'u teuluoedd, gyda 20% o'r rhai a gyfwelwyd yn cyfaddef eu bod naill ai wedi'u cynhyrfu neu wedi'u dinistrio gan y newyddion am yr achos diweddaraf. Roedd y newyddion yn peri pryder mawr i 50% arall. Roedd ymateb ffermwyr yn amrywio rhwng teimlo'r pwysau ond ymdopi i salwch corfforol gwirioneddol a achoswyd gan y straen a phryder cysylltiedig yr haint dinistriol hwn.

Clearly, the situation cannot continue; it should not be allowed to continue. I trust that there will be at least some progress, to which vaccination could contribute. However, it can be only part of the solution; it is not the whole solution. That is why there will be such disappointment. The Minister correctly says that there has not been a cull, but, in practice, it does not take a very observant pair of eyes to see that there is quite a lot of activity out there. When you use the minor road network across Wales, you see the evidence of twilight activity, which is immensely dangerous and often associated with criminality. It has little to do with the farmers themselves, but it is an issue that is desperately worrying and really difficult in terms of the impact it has on infectivity. Today's announcement will have little impact in lessening that sort of action, which is reprehensible, although, nevertheless, we understand the context in which it happens.

Mae'n amlwg na all y sefyllfa barhau; ni ddylid caniatáu iddi barhau. Hyderaf y bydd o leiaf rywffaint o gynnydd, lle y gallai brechu gyfrannu ato. Fodd bynnag, dim ond rhan fach o'r ateb y gallai hyn fod; nid dyma'r ateb cyfan. Dyna pam y bydd cymaint o siom. Mae'r Gweinidog yn gywir wrth ddweud na fu difa, ond, yn ymarferol, nid oes angen llygaid craff iawn i weld bod cryn dipyn o weithgarwch yn digwydd. Pan fyddwch yn defnyddio'r rhwydwaith ffyrdd bach ledled Cymru, gallwch weld tystiolaeth o weithgareddau'r cyfnos, sy'n hynod o beryglus ac yn aml yn gysylltiedig â throseddau. Ychydig iawn sydd gan hyn i'w wneud â'r ffermwyr eu hunain, ond mae'n fater sy'n peri pryder dybryd ac yn anodd iawn o ran yr effaith a gaiff ar heintusrwydd. Ychydig iawn o effaith a gaiff cyhoeddiad heddiw ar leihau'r gweithgareddau hynny, sy'n deilwng o gerydd, er ein bod yn deall, fodd bynnag, y cyd-destun y mae hyn yn digwydd ynddo.

Minister, I have just a few questions to ask, to add to those that you have already answered. First, and simply, what has changed? What has changed since you and your Cabinet colleagues in the previous Government approved the cull in the action zone? The report we have in front of us, which dropped into our e-mail boxes in the past hour, makes it quite clear that, ultimately, this is a political decision. A decision has clearly been made, but what has changed? Also, Minister, can you please confirm that the decision you have made today enjoys the support and backing of the Deputy Minister for Agriculture, Fisheries, Food and European Programmes, whose views on this have been clearly expressed in this Chamber? Do you feel that, in the long term, the split of animal health within the portfolio is a sustainable situation, given the enormous workload and pressures that flow from the wider environment and sustainability brief in the context of the work ahead? In all seriousness, I ask whether, in the long term, this is the correct way to go forward. There is deep disappointment. I just have to articulate that today.

Weinidog, dim ond ychydig o gwestiynau sydd gennyf i'w gofyn, i ychwanegu at y rhai yr ydych wedi'u hateb yn barod. Yn gyntaf, ac yn syml, beth sydd wedi newid? Beth sydd wedi newid ers i chi a'ch cyd-Aelodau yng Nghabinet y Llywodraeth flaenorol gymeradwyo'r rhaglen ddifa yn yr ardal gweithredu? Mae'r adroddiad sydd gennym o'n blaenau, a gyrrhaeddodd ein blychau e-bost o fewn yr awr ddiwethaf, yn ei gwneud yn gwbl glir mai penderfyniad gwleidyddol yw hwn yn y pen draw. Mae'n amlwg fod penderfyniad wedi'i wneud, ond beth sydd wedi newid? Hefyd, Weinidog, a allwch gadarnhau bod y penderfyniad a wnaethoch heddiw yn cael ei ategu a'i gefnogi gan y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd, Bwyd a Rhaglenni Ewropeaidd? Mae ei farn am hyn wedi cael ei mynegi'n glir yn y Siambr hon. A ydych yn teimlo bod rhannu iechyd anifeiliaid o fewn y portffolio yn sefyllfa gynaliadwy yn y tymor hir, o gofio'r llwyth gwaith enfawr a'r pwysau sy'n deillio o'r briff amgylchedd a chynaliadwyedd ehangach yng nghyd-destun y gwaith sydd ar droed? O ddifrif, rwy'n gofyn ai dyma'r ffordd gywir i fynd ymlaen, yn y tymor hir. Mae'r siom yn ddirfawr. Mae'n rhaid imi fynegi hynny heddiw.

John Griffiths: Of course, as I said earlier, there will be differing views in farming communities and across Wales with regard to my announcement. However, I think that a lot of people will understand that we will now get on and do something about the wildlife aspect of tackling this disease, whereas, as I have said a number of times

John Griffiths: Wrth gwrs, fel y dywedais yn gynharach, bydd safbwyntiau gwahanol mewn cymunedau ffermio a ledled Cymru o ran fy nghyhoeddiad. Fodd bynnag, credaf y bydd llawer o bobl yn deall y byddwn yn awr yn mynd ati i wneud rhywbeth am yr agwedd bywyd gwyllt ar fynd i'r afael â'r clefyd hwn, lle nad yw hynny wedi bod yn wir hyd yn hyn,

already, hitherto that has not been the case. As you said, William, it is the wildlife situation that must be addressed. We will now go on to address it. When it comes to the process up to now, we have shown as much urgency as was necessary in working up a comprehensive strategy as well as setting out the way forward with regard to the intensive action area as part of that. Of course, we had to give careful consideration to that comprehensive framework. It sets out the way ahead for the next four years. These are matters that require very careful consideration. These are very difficult decisions to take. The Protection of Badgers Act 1992 is in place, as you know, William, and that is law that must be observed.

In terms of what has changed, I set out the position with regard to previous experience, where we were not able to get on and address the wildlife element. We now have the science review, which we committed to carrying out in our manifesto and programme for government. That refers to accumulating evidence for vaccination. Indeed, our own technical group that we established as part of our comprehensive approach to TB eradication in Wales has included that option of vaccination in an endemic area as a way of taking forward our comprehensive approach in Wales and of addressing the wildlife element. Of course, this is a collective decision of Government.

Joyce Watson: Thank you, Minister, for your statement. Obviously, I welcome it. The Labour Party manifesto for May's Assembly elections promised a science-led approach to bovine TB. The Minister knows that I have made my position very clear many times, in writing and in oral statements, that I support the view that you have arrived at. We all know that bovine TB is a horrible disease and that it devastates families and businesses emotionally and economically. There is no debate or ambiguity about the need to eradicate bovine TB, but we have to do it in a cost-effective and responsible way that is both sustainable and long term. That is backed by today's report. In my opinion, Minister, you have rightly reached the conclusion that culling was not sustainable in the long term and that it could—it is writ large—spread bovine TB for a minimum of two years. However, a vaccination programme will start to reduce the incidence of that disease virtually immediately. The injectable vaccine is available and ready to use in that TB hotspot area that has been identified.

Minister, you have put in place new stringent cattle-side measures for the last few years. Will you evaluate the efficacy of those measures and the stringent application of them? I also want to reiterate what William Powell has said; how will you try to ensure that individuals do not take things into their own hands and start to shoot and kill badgers or, if some of the evidence that I have is right, continue to shoot and kill badgers? I have to welcome this as someone who lives in Pembrokeshire and who has been opposed to it all along. I have to welcome it for that community, Minister. In my opinion, it would have been ripped apart and businesses would have been adversely affected by it, especially in a tourist destination hotspot. Thank you, Minister.

John Griffiths: I thank Joyce Watson for her recognition of the very serious impact of this disease on cattle-farming families and the wider rural community, which is very much the case. I also agree that this is a long-term eradication programme. As I said earlier, unfortunately, there are no quick and easy solutions. We must be in it for the long term and it must be a sustainable approach.

fel yr wyf wedi dweud sawl gwaith eisoes. Fel y dywedasoch, William, y sefyllfa'n ymwneud â bywyd gwyllt sydd angen sylw. Byddwn yn awr yn mynd ati i fynd i'r afael â hi. O ran y broses hyd yn hyn, rydym wedi bod mor gyflym ag oedd ei angen wrth lunio strategaeth gynhwysfawr yn ogystal â nodi'r ffordd ymlaen o ran yr ardal gweithredu dwys fel rhan o hynny. Wrth gwrs, roedd rhaid inni ystyried y fframwaith cynhwysfawr hwnnw'n ofalus. Mae'n nodi'r ffordd ymlaen ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r rhain yn faterion sydd angen eu hystyried yn ofalus iawn. Mae'r rhain yn benderfyniadau anodd iawn. Mae Deddf Gwarchod Moch Daear 1992 yn bodoli, fel y gwyddoch, William, a rhaid dilyn y gyfraith honno.

O ran beth sydd wedi newid, nodais y sefyllfa o ran y profiad blaenorol, lle nad oedd yn bosibl inni fwrw ymlaen a mynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt. Erbyn hyn, mae gennym yr adolygiad gwyddonol y gwnaethom ymrwymo i'w gynnal yn ein manifesto a'n rhaglen lywodraethu. Mae hynny'n cyfeirio at gasglu tystiolaeth ar gyfer brechu. Yn wir, mae ein grŵp technegol ein hunain a sefydlwyd fel rhan o'n ffordd gynhwysfawr o fynd ati i ddileu TB yng Nghymru wedi cynnwys yr opsiwn o frechu mewn ardal endemig fel ffordd o ddatblygu ein ffordd gynhwysfawr yng Nghymru ac o fynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt. Wrth gwrs, cyd-benderfyniad gan y Llywodraeth yw hwn.

Joyce Watson: Diolch, Weinidog, am eich datganiad. Yn amlwg, rwyf yn ei groesawu. Roedd manifesto'r Blaid Lafur ar gyfer etholiad y Cynulliad ym mis Mai yn addo ffordd o fynd i'r afael â TB buchol a gaiff ei harwain gan wyddoniaeth. Fe ŵyr y Gweinidog fy mod wedi gwneud fy safbwynt yn glir sawl gwaith, yn ysgrifenedig ac mewn datganiadau llafar, sef fy mod yn cefnogi'r farn yr ydych wedi penderfynu arni. Gwyddom i gyd fod TB buchol yn glefyd ofnadwy a'i fod yn dinistrio teuluoedd a busnesau yn emosiynol ac yn economaidd. Nid oes unrhyw ddatl neu amwysedd ynghylch yr angen i ddileu TB buchol, ond mae'n rhaid inni wneud hynny mewn ffordd gost-efeithiol a chyfrifol sy'n gynaliadwy ac yn hirdymor. Caiff hynny ei gefnogi gan adroddiad heddiw. Yn fy marn i, Weinidog, rydych wedi dod i'r casgliad cywir nad oedd difa yn gynaliadwy yn y tymor hir ac y gallai—mae'n hollol amlwg—ledaenu TB buchol am o leiaf ddwy flynedd. Fodd bynnag, bydd rhaglen frechu yn dechrau lleihau nifer yr achosion o'r clefyd hwnnw bron ar unwaith. Mae'r brechlyn chwistrellu ar gael ac yn barod i'w ddefnyddio yn yr ardal a nodwyd lle mae TB ar ei waethaf.

Weinidog, rydych wedi rhoi mesurau newydd ar waith ar ochr y gwartheg dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. A wnewch chi werthuso effeithiolrwydd y mesurau hynny a'r defnydd llym ohonynt? Rwyf hefyd am ailadrodd yr hyn a ddywedodd William Powell; sut y byddwch yn ceisio sicrhau nad yw unigolion yn gofalu am bethau eu hunain ac yn dechrau saethu a lladd moch daear neu, os yw'r dystiolaeth sydd gennyf yn gywir, yn parhau i saethu a lladd moch daear? Rhaid imi groesawu hyn fel rhywun sy'n byw yn sir Benfro ac sydd wedi gwrthwynebu o'r cychwyn. Mae'n rhaid imi ei groesawu i'r gymuned honno, Weinidog. Yn fy marn i, byddai wedi cael ei rhywgo'n ddamau a byddai effaith adwyol wedi bod ar fusnesau, yn enwedig mewn cyrchfan dwristiaeth hynod boblogaidd. Diolch, Weinidog.

John Griffiths: Diolch i Joyce Watson am gydnabod effaith ddifrifol iawn y clefyd hwn ar deuluoedd sy'n ffermio gwartheg a'r gymuned wledig ehangach, sy'n hollol wir. Rwyf hefyd yn cytuno bod hon yn rhaglen ddileu hirdymor. Fel y dywedais yn gynharach, nid oes unrhyw atebion cyflym a hawdd, yn anffodus. Rhaid inni ymrwymo i hyn yn y tymor hir a rhaid iddi fod yn ffordd gynaliadwy. Yn wir, mae'r adolygiad gwyddonol

Indeed, the science review talks about not raising expectations that there are any quick or easy solutions to this terrible disease because, sadly, that is not the case. We constantly evaluate the programme and learn lessons as we move forward and that will continue to be the case. That will include cattle measures and, indeed, there are some specific examples of that in the comprehensive framework for the next four years. I will reiterate what I said in responding to William Powell, that the Protection of Badgers Act is there for very good reason. It is the law, and it must be observed.

yn trafod peidio â chodi disgwyliadau bod unrhyw atebion cyflym neu hawdd i'r clefyd dychrynlyd hwn, oherwydd, yn anffodus, nid yw hynny'n wir. Rydym yn gwerthuso'r rhaglen yn gyson ac yn dysgu gwersi wrth inni symud ymlaen, a bydd hynny'n parhau i fod yn wir. Bydd hynny'n cynnwys mesurau'n ymwneud â gwartheg ac, yn wir, mae rhai enghreifftiau penodol o hynny yn y fframwaith cynhwysfawr ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Byddaf yn ailadrodd yr hyn a ddywedais wrth ymateb i William Powell, sef bod y Ddeddf Gwarchod Moch Daear yn bodoli am reswm da iawn. Mae'n gyfraith, a rhaid ei dilyn.

Elin Jones: Minister, your Government hoped that scientific evidence commissioned by you would provide you with evidence not to undertake a badger cull. It has done the reverse, and has confirmed the reduction in TB that results from the culling of badgers. Your scientists passed the decision back to you—the politicians in the Cabinet. Minister, you fund a programme to cull grey squirrels to protect red squirrels. You, as Minister, fund a programme to cull deer to protect new tree growth. Yet, today, you are not prepared to cull badgers in north Pembrokeshire to protect cattle and cattle farming. Farming is of secondary importance to this Government.

Elin Jones: Weinidog, gobaith eich Llywodraeth oedd y byddai'r dystiolaeth wyddonol a gomisiynwyd gennych yn darparu tystiolaeth i beidio â mynd ati i ddifa moch daear. Mae wedi gwneud y gwrthwyneb, ac wedi cadarnhau'r gostyngiad mewn TB sy'n deillio o ddifa moch daear. Rhoddodd eich gwyddonwyr y penderfyniad yn ôl i chi—y gwleidyddion yn y Cabinet. Weinidog, rydych yn ariannu rhaglen i ddifa gwiwerod llwyd i ddiogelu'r wiwer goch. Rydych chi, fel Gweinidog, yn ariannu rhaglen i ddifa ceirw i warchod tyfiant coed newydd. Eto i gyd, heddiw, nid ydych yn barod i ddifa moch daear yng ngogledd sir Benfro er mwyn amddiffyn gwartheg a ffermio gwartheg. Eilaidd yw ffermio i'r Llywodraeth hon.

Vaccination offers no protection to cattle from already diseased badgers, especially in an area such as north Pembrokeshire, where a high percentage of badgers are already infected with TB. Today, farmers have been severely let down by your Government. You are failing to allow them to protect their cattle from TB infection. Do you agree with me that farmers will now have to consider how best to protect their cattle? I, for one, would not blame them however they choose to do that.

Nid yw brechu yn cynnig unrhyw amddiffyniad i wartheg rhag moch daear sydd eisoes wedi'u heintio, yn enwedig mewn ardal fel gogledd sir Benfro, lle mae canran uchel o foch daear wedi'u heintio â TB eisoes. Heddiw, mae ffermwyr wedi cael eu siomi'n ddifrifol gan eich Llywodraeth. Rydych yn methu â chaniatáu iddynt ddiogelu eu gwartheg rhag TB. A ydych yn cytuno â mi y bydd yn rhaid i ffermwyr yn awr ystyried y ffordd orau o ddiogelu eu gwartheg? Ni fyddwn i yn gweld bai arnynt, sut bynnag y maent yn dewis gwneud hynny.

Alun Davies: You cannot say that.

Alun Davies: Ni allwch ddweud hynny.

Elin Jones: I just did.

Elin Jones: Rwyf newydd wneud.

John Griffiths: May I begin by saying that I am very concerned and disappointed to hear Elin Jones's uncharacteristic closing remarks? As I have said earlier on at least two occasions in responding to Members, the law is there for very good reason. The Protection of Badgers Act is on the statute book and must be observed. We must be careful and guarded in remarks that we make with regard to that legislation and the protection that it rightly affords.

John Griffiths: A gaf i ddechrau drwy ddweud fy mod yn bryderus iawn ac yn siomedig o glywed sylwadau annodweddiadol Elin Jones wrth gloi? Fel y dywedais yn gynharach ar o leiaf ddau achlysur wrth ymateb i'r Aelodau, mae rhesymau da dros gael y gyfraith. Mae'r Ddeddf Gwarchod Moch Daear ar y llyfr statudau, a rhaid ei dilyn. Mae'n rhaid inni fod yn ofalus ac yn wyladwrus wrth wneud sylwadau o ran y ddeddfwriaeth honno a'r diogelwch a gaiff ei sicrhau ganddi, a hynny'n gywir ddigon.

I do not accept in any way that we have let farmers down. [ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] I have already stated on a number of occasions that, previously, not a single badger was culled. Notwithstanding the very able Minister for Rural Affairs that we had in the last Government, the legal difficulties involved in these matters prevented a single badger being culled. We now have the science review, as I mentioned earlier, and it refers to various levels of uncertainty when it comes to any measure to deal with this disease. We also have the legal protections afforded by the Animal Health Act 2002 and some fairly substantial hurdles to be overcome before a cull is allowed to proceed. That is the background in terms of the science and the law.

Nid wyf yn derbyn mewn unrhyw ffordd ein bod wedi siomi ffermwyr. [AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Rwyf wedi dweud ar swyl achlysur eisoes nad oedd yr un mochyn daear wedi'i ddifa cynt. Er gwaethaf y Gweinidog dros Faterion Gwledig galluog iawn oedd gennym yn y Llywodraeth ddiwethaf, roedd yr anawsterau cyfreithiol sy'n ymwneud â'r materion hyn wedi atal yr un mochyn daear rhag cael ei ddifa. Mae'r adolygiad gwyddonol gennym erbyn hyn, fel y soniais yn gynharach, ac mae'n cyfeirio at wahanol lefelau o ansicrwydd o ran unrhyw fesur i fynd i'r afael â'r clefyd hwn. Mae gennym hefyd y diogelwch cyfreithiol a roddir gan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 ac mae rhai rhwystrau eithaf sylweddol i'w goresgyn cyn y caniateir i raglen ddifa symud ymlaen. Dyna'r cefndir o ran y wyddoniaeth a'r gyfraith.

What we can do is get on and do something for the cattle farmers in the intensive action area by having this

Yr hyn y gallwn ei wneud yw mynd ati i wneud rhywbeth ar gyfer y ffermwyr gwartheg yn yr ardal gweithredu dwys drwy

vaccination programme. It will not help infected badgers, but we estimate that something like three out of four of the badgers in the intensive action area are not infected, and it will give a substantial degree of resistance to the disease to those uninfected badgers. The science review states that it is then logical to assume, in terms of expert opinion, that that will, over time, lead to a reduction in the incidence in cattle. It is quite clear that the Welsh Government regards farmers and cattle farmers in Wales as very important to Wales indeed. We will continue to work in partnership with them. We will get on and we will do something to address the wildlife element.

gael y rhaglen frechu hon. Ni fydd yn helpu moch daear sydd wedi'u heintio, ond rydym yn amcangyfrif bod tua thri o bob pedwar o'r moch daear yn yr ardal gweithredu dwys heb gael eu heintio, a bydd yn sicrhau y gall y moch daear nad ydynt wedi'u heintio wrthsefyll y clefyd i raddau sylweddol. Dywed yr adolygiad gwyddonol ei bod yn rhesymegol, felly, o ran y farn arbenigol, y bydd hynny, ymhen amser, yn arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion mewn gwartheg. Mae'n hollol glir bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffermwyr a ffermwyr gwartheg yng Nghymru yn bwysig iawn i Gymru. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â hwy. Byddwn yn bwrw ymlaen a byddwn yn gwneud rhywbeth i fynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt.

Paul Davies: As someone who lives in the proposed intensive action area, I am extremely disappointed with the Minister's statement today. More importantly, farmers in my constituency will be very angry that there has been a substantial change in your TB eradication policy. We have heard the Minister quoting from the report of the bovine TB science review group. Let me quote something else that is stated in that report. It says that the randomised badger culling trial

Paul Davies: A minnau'n byw yn yr ardal gweithredu dwys arfaethedig, rwyf yn siomedig iawn gyda datganiad y Gweinidog heddiw. Yn bwysicach fyth, bydd ffermwyr yn fy etholaeth i yn ddig iawn bod newid sylweddol yn eich polisi ar ddileu TB. Rydym wedi clywed y Gweinidog yn dyfynnu o adroddiad y grŵp adolygu gwyddonol ar TB buchol. Gadewch imi ddyfynnu rhywbeth arall sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad. Mae'n dweud bod yr hap-dreial difa moch daear

3.15 p.m.

'showed that proactive badger culling as conducted in the trial resulted in an overall beneficial effect on confirmed bTB cattle herd breakdowns compared with 'survey only' (no cull) areas'.

wedi dangos bod difa moch daear yn rhagweithiol, fel y gwnaed yn y treial, wedi arwain at fudd cyffredinol o ran achosion TB mewn buchesi gwartheg, o'i gymharu ag ardaloedd a gafodd eu harolygu yn unig a lle na fu difa.

Given that clear point in the report, can the Minister tell us why the culling of badgers is not included in his TB eradication policy now?

O gofio'r pwynt eglur hwnnw yn yr adroddiad, a all y Gweinidog ddweud wrthym pam nad yw difa moch daear bellach wedi'i gynnwys yn ei bolisi i ddileu TB?

I also note that, in one of his framework document action points, he states that he will

Nodaf hefyd ei fod yn datgan, yn un o bwyntiau gweithredu ei ddogfen fframwaith, y bydd yn

'continue to monitor levels of TB in other species and introduce new legislation where necessary to ensure appropriate powers to manage the TB breakdowns in those species'.

'Parhau i fonitro lefelau TB mewn anifeiliaid eraill a chyflwyno deddfwriaeth newydd lle gwelir bod angen i sicrhau bod gennym y pwerau priodol i reoli'r achosion o TB yn yr anifeiliaid hynny'.

Will the Minister tell us what sort of new legislation and appropriate powers he is talking about?

A wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym am ba fath o ddeddfwriaeth newydd a phwerau priodol y mae'n sôn?

In his action points, he talks a lot about vaccination. Indeed, in his framework document, he clearly states that

Yn ei bwyntiau gweithredu, mae'n sôn llawer am frechu. Yn wir, yn ei ddogfen fframwaith, mae'n datgan yn glir bod

'developing an oral vaccine against TB for use in badgers is proving more difficult than originally hoped'.

'datblygu brechlyn trwy'r geg yn erbyn TB ar gyfer moch daear wedi datblygu i fod yn waith anos na'r disgwyl'.

I remind the Minister, as has already been said, that vaccination prevents disease, but does not cure it. Does he accept, therefore, that badgers will have to be removed before vaccination has any chance of success? He makes it clear in his documents that vaccination and developing a vaccine will be extremely difficult. Given that this will take a long time, what specific effective measures will he take to help farmers in my constituency now? That is what farmers in my area want to know, because we have not heard anything from him today to that effect. The Minister has clearly let farmers down today.

Atgoffaf y Gweinidog, fel y dywedwyd eisoes, fod brechu yn atal clefyd, ond nid yw'n ei wella. A yw'n derbyn, felly, y bydd angen cael gwared arnynt cyn i'r brechu gael cyfle i lwyddo? Mae'n ei gwneud yn eglur yn ei ddogfennau y bydd brechu a datblygu brechlyn yn eithriadol o anodd. O ystyried y bydd hynny'n cymryd cryn amser, pa fesurau effeithiol penodol y bydd yn eu cymryd i helpu ffermwyr yn fy etholaeth yn awr? Dyna beth y mae'r ffermwyr yn fy ardal i eisiau ei wybod, oherwydd nid ydym wedi clywed unrhyw beth ganddo heddiw i'r perwyl hwnnw. Mae'n amlwg bod y Gweinidog wedi siomi ffermwyr heddiw.

John Griffiths: Already today, on numerous occasions, I have made the point that we will be getting on and doing

John Griffiths: Eisoes heddiw, ar sawl achlysur, rwyf wedi pwysleisio y byddwn yn gweithredu ar yr elfen bywyd gwyllt,

something about the wildlife element, which has proved so difficult in the past. The science review uses a figure—of course, it is talking about the randomised badger cull trials rather than the intensive action area—of 16% over nine years as the benefit that could be expected from a cull. Given that, in the intensive action area, infection is something in the order of 23%, that 16% reduction would take the figure down from 23% to just below 20% after nine years. As I said earlier, there are no quick or easy solutions to this disease.

The vaccination programme will take some time to work. It is a matter of it being effective over time, as the science review states; it also states that a cull would have little or no effect in the early years. It is always good not to be too selective when quoting from this documentation, but to look at the uncertainties of any course of action, which is the general position.

As I have also said on a number of occasions already today, this is a matter where the law is of central importance, as we have seen in the past. There are considerable legal difficulties to be overcome as far as a culling policy and the Animal Health Act are concerned. However, we can now get on with that five-year vaccination programme and we can begin it over the next couple of months. I know that all my officials and colleagues in the Welsh Government are keen to get on and do just that.

The Deputy Presiding Officer: I ask the remaining speakers to be focused, or I will not be able to call you all.

Angela Burns: Minister, hope is a funny old thing. Even when you suspect what the result will be, you always hope that you might get a better outcome. When this was filibustered out of the last Assembly term, we all thought that this would end up being the result and, today, that is the case. I have five straight questions to ask you—

The Deputy Presiding Officer: Order. Five are too many, Angela.

Angela Burns: Okay, in order of priority, you note that there has been a 3% drop in the live cattle herds registered. That is not surprising. I know of at least three farmers in my area who have given up because they could no longer cope with the TB restrictions under which they were constantly operating. Will you look at how you might be able to monitor that, and report back to us so that we can ensure that farming does not completely die over the next few years?

Will you also look at what funding you might be able to provide for counselling services? I heard a backbencher somewhere over there say that it is a good day for badgers; well, it is a very bad day for the 70% of farmers who cannot cope with seeing their prize herds exterminated in front of them. Farm Crisis Network and other charities need funding to be able to go out there to stand shoulder to shoulder with those farmers, giving them the counselling and support that they need when they are going through such a difficult time.

sydd wedi bod mor anodd yn y gorffennol. Mae'r adolygiad gwyddonol yn nodi ffigur—wrth gwrs, mae'n sôn am yr hap-dreialon difa moch daear yn hytrach na'r ardal gweithredu dwys—sef 16%, dros naw mlynedd, o ran y budd y gellir ei ddisgwyl ar ôl difa. O ystyried mai 23% yw lefel yr heintiad yn yr ardal gweithredu dwys, byddai gostyngiad o 16% yn lleihau'r ffigur o 23% i ychydig o dan 20% ar ôl naw mlynedd. Fel y dywedais yn gynharach, nid oes atebion cyflym a hawdd yng nghyd-destun y clefyd hwn.

Bydd y rhaglen frechu yn cymryd amser i weithio. Bydd yn effeithiol dros amser, fel y nodwyd yn yr adolygiad gwyddonol. Mae'n nodi hefyd na fyddai difa'n cael fawr o effaith, neu ddim effaith o gwbl, yn y blynyddoedd cynnar. Wrth ddyfynnu o'r ddogfen honno, dylid osgoi bod yn rhy ddethol; dylid yn hytrach edrych ar yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag unrhyw ffordd o weithredu, sef y safbwynt cyffredinol.

Fel yr wyf hefyd wedi dweud ar nifer o achlysuron heddiw, mae hwn yn fater lle mae'r gyfraith yn hollbwysig, fel y gwelsoem yn y gorffennol. Mae anawsterau cyfreithiol sylweddol i'w goresgyn wrth ystyried polisi difa a'r Ddeddf Iechyd Anifeiliaid. Fodd bynnag, gallwn symud ymlaen yn awr â'r rhaglen frechu bum mlynedd a'i dechrau yn y misoedd nesaf. Gwn fod fy holl swyddogion a'm cydweithwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn awyddus i fynd ati i wneud hynny.

Y Dirprwy Lywydd: Gofynnaf i'r siaradwyr sydd ar ôl gadw ffocws, neu ni fyddaf yn gallu galw arnoch i gyd.

Angela Burns: Weinidog, hen beth rhyfedd yw gobaith. Hyd yn oed pan fyddwch yn amau beth fydd y canlyniad, byddwch bob amser yn gobeithio cael canlyniad gwell. Pan fu herwddadlau ynghylch hyn a gafodd wared arno yn nhymor y Cynulliad diwethaf, roeddem i gyd o'r farn mai dyma fyddai'r canlyniad yn y pen draw, a daeth hynny'n wir heddiw. Mae gennyf bum cwestiwn pendant i'w gofyn ichi—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Mae pump yn ormod, Angela.

Angela Burns: Iawn, yn nhrefn blaenoriaeth, rydych yn nodi y bu gostyngiad o 3% yn nifer y buchesi gwartheg byw sy'n cael eu cofrestru. Nid yw hynny'n syndod. Gwn am o leiaf dri ffermwr yn fy ardal i sydd wedi rhoi'r gorau iddi am nad oeddent yn gallu ymdopi â'r cyfyngiadau TB yr oeddent yn gweithredu oddi tanynt drwy'r adeg. A wnewch chi edrych ar sut y gallech fonitro hynny, ac a wnewch adrodd yn ôl fel y gallwn sicrhau nad yw ffermio yn marw'n gyfan gwbl dros y blynyddoedd nesaf?

A wnewch chi hefyd edrych ar ba gyllid y gallech ei ddarparu ar gyfer gwasanaethau cynghori? Clywais aelod o'r meinciau cefn rywle yn y fan acw yn dweud ei fod yn ddiwrnod da i foch daear; wel, mae'n ddiwrnod gwael iawn i'r 70% o ffermwyr sy'n methu ymdopi â gweld eu buchesi arobryn yn cael eu difodi o'u blaenau. Mae angen arian ar y Rhwydwaith Argyfwng Ffermio ac ar elusennau eraill i allu gweithredu gan sefyll ochr yn ochr â'r ffermwyr hynny, gan roi iddynt y cyngor a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt wrth iddynt brofi adeg mor anodd.

Your own report talks about the economic impact on those farmers, and I wonder whether you might be able to look at that in the future, to see—

Mae eich adroddiad eich hun yn sôn am yr effaith economaidd ar y ffermwyr hynny; tybed a fydddech yn gallu edrych ar hynny yn y dyfodol, i weld—

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i gasgliad yn awr, os gwelwch yn dda.

Angela Burns: Production is lower, farmers end up working for longer and farm income is lower. Could you see what you might be able to do about that? Having some money for a dead animal is simply not sufficient.

Angela Burns: Mae llai o gynhyrchu, mae ffermwyr yn gorfod gweithio yn hwy, ac mae incwm ffermydd yn is. A allech chi edrych ar beth y gallech wneud am hynny? Nid yw cael rhywfaint o arian am anifail marw yn ddigonol.

John Griffiths: I said previously that we all agree that this is a terrible disease and that it has to be eradicated. This is a long-term effort, but we can make substantial progress towards that long-term objective. In doing so, we have to address the wildlife element, and that is what the vaccination programme will be designed to do. We need to continue working in close co-operation with the farming industry and all major stakeholders. Of course, we recognise the impact on cattle-farming families. I mentioned earlier that part of our four-year strategy and framework going forward will be a new helpline service that will be about providing business and personal support. I hope that that will be effective.

John Griffiths: Rwyf eisoes wedi dweud ein bod i gyd yn gytûn bod hwn yn glefyd erchyll a bod yn rhaid ei ddileu. Mae hon yn ymdrech hirdymor, ond gallwn wneud cynnydd sylweddol tuag at yr amcan hirdymor hwnnw. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid inni fynd i'r afael â'r elfen bywyd gwyllt, a byddwn yn cynllunio'r rhaglen frechu i wneud hynny. Mae angen inni barhau i gydweithio'n agos â'r diwydiant ffermio a'r prif randdeiliaid i gyd. Wrth gwrs, rydym yn cydnabod yr effaith ar deuluoedd sy'n ffermio gwartheg. Soniais yn gynharach y bydd rhan o'n strategaeth bedair blynedd a'r fframwaith wrth symud ymlaen yn cynnwys gwasanaeth llinell gymorth newydd a fydd yn darparu cymorth busnes a chymorth personol. Rwy'n gobeithio y bydd hynny'n effeithiol.

In terms of the number of cattle herds registered in Wales, we know that the agriculture industry is a very important part of Wales. Wales is a very rural country, and farming is very important to us. That is why we were all very pleased in the Welsh Government to see strong performance in recent times from the agriculture industry in Wales, including the cattle industry.

O ran nifer y buchesi gwartheg sydd wedi'u cofrestru yng Nghymru, gwyddom fod y diwydiant amaethyddiaeth yn rhan bwysig iawn o Gymru. Mae Cymru yn wlad wledig iawn, ac mae ffermio yn bwysig iawn inni. Dyna pam yr oedd pawb ohonom yn Llywodraeth Cymru yn falch iawn o weld perfformiad cadarn y diwydiant amaethyddiaeth yng Nghymru yn ddiweddar, gan gynnwys y diwydiant gwartheg.

Russell George: Minister, in a Government statement in 2010, the previous Minister said this:

Russell George: Weinidog, mewn datganiad gan y Llywodraeth yn 2010, dywedodd y cyn-Weinidog:

'While there are mixed views about the benefits of culling badgers in controlling the spread of TB, evidence from a number of studies shows that culling badgers can reduce TB in cattle. We have learnt lessons from the previous trials and will apply them in the pilot area.'

Er bod barn gymysg am fuddion difa moch daear o ran rheoli lledaeniad TB, mae tystiolaeth o nifer o astudiaethau yn dangos y gallai difa moch daear leihau nifer yr achosion o TB mewn gwartheg. Rydym wedi dysgu'r gwersi o'r treialon blaenorol a byddwn yn eu rhoi ar waith yn yr ardal beilot.

Why do you believe that vaccination on its own, rather than a two-pronged approach, with controlled culling, is a better option? That is my first question.

Pam rydych yn credu bod brechu ar ei ben ei hun, yn hytrach na dull deublyg, gyda difa rheoledig, yn ddewis gwell? Dyna fy nghwestiwn cyntaf.

The last paragraph of the executive summary in today's report says that the group recognises that, while the TB eradication programme should be informed by a science evidence base, the precise measures adopted will be a political judgment. Could you comment on that? The Farmers Union of Wales has released a press release stating that today's decision goes against the science and marks a cowardly betrayal of north Pembrokeshire farmers and the Welsh farming industry as a whole. Could you comment on that press release?

Mae paragraff olaf crynodeb gweithredol adroddiad heddiw yn nodi bod y grŵp yn cydnabod, er y dylai'r rhaglen i ddileu TB gael ei llywio gan sail dystiolaeth wyddonol, mai barn wleidyddol a fydd yn pennu'r union fesurau a fydd yn cael eu mabwysiadu. Beth yw eich sylw am hynny? Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi rhyddhau datganiad i'r wasg yn datgan bod penderfyniad heddiw yn mynd yn groes i'r wyddoniaeth a'i fod yn bradychu ffermwyr gogledd sir Benfro a diwydiant ffermio Cymru gyfan mewn ffordd lwfr. Beth yw eich sylw am y datganiad i'r wasg?

The Deputy Presiding Officer: Order. Conclude now, please.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Dewch i gasgliad yn awr, os gwelwch yn dda.

Russell George: Minister, will your proposed vaccine be an oral vaccine, and when do you estimate that the vaccine will be on the market? In 2010, the Government said that it would not be available until 2014 at the earliest.

Russell George: Weinidog, a yw'r brechlyn arfaethedig yn frechlyn trwy'r geg, a beth yw eich amcangyfrif o ran pryd y bydd y brechlyn ar y farchnad? Yn 2010, dywedodd y Llywodraeth na fyddai ar gael cyn 2014.

John Griffiths: I will begin by addressing some of the more specific questions. The vaccine will be injected. It is currently available; in fact, it is being used. We know that this is doable. We know that the vaccine will give resistance to uninfected badgers. As I said earlier, the science review stated that it is logical to assume that creating resistance in uninfected badgers, over time, will result in reduced incidence in cattle.

John Griffiths: Dechreuaf drwy ateb rhai o'r cwestiynau mwy penodol. Bydd y brechlyn yn cael ei chwistrellu. Mae ar gael ar hyn o bryd; yn wir, mae'n cael ei ddefnyddio. Rydym yn gwybod bod modd gwneud hyn. Gwyddom y bydd y brechlyn yn rhoi ymwrthedd i foch daear nad ydynt wedi'u heintio. Fel y dywedais yn gynharach, nododd yr adolygiad gwyddonol ei bod yn rhesymegol tybio y bydd creu ymwrthedd mewn moch daear nad ydynt wedi'u heintio, dros amser, yn arwain at lai o achosion mewn gwartheg.

The Member referred to the previous Minister. As I said earlier, not a single badger was culled under the previous Government. We can now get on and vaccinate. It is a matter of looking at the science and the uncertainties of any course of action, and it is also very much a matter of looking at the legal considerations. The Member referred to the FUW press release. I believe that what I have announced today is the right thing to do and the best course of action.

Cyfeiriodd yr Aelod at y cyn-Weinidog. Fel y dywedais yn gynharach, ni chafodd yr un mochyn daear ei ddifa o dan y Llywodraeth flaenorol. Gallwn fynd ati yn awr i frechu. Mae'n fater o ystyried y wyddoniaeth a'r ansicrwydd ynghylch unrhyw gamau gweithredu, ac mae hefyd, i raddau helaeth, yn fater o edrych ar yr ystyriaethau cyfreithiol. Cyfeiriodd yr Aelod at ddatganiad Undeb Amaethwyr Cymru i'r wasg. Credaf mai'r hyn yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw yw'r peth iawn i'w wneud a'r ffordd orau o weithredu.

Nick Ramsay: Minister, can you be very specific in your answer to the question of when you intend a vaccination process to start? Also, could you give us an idea of the estimated cost of the vaccination programme? Finally, the Minister with responsibility in this area in the previous Government had the confidence of farmers. As you will have gathered from comments made today, there is a great lack of confidence among our rural community that this will achieve the end that you hope for. I really hope that you are right, Minister, because you are clearly set on this course of action. How do you intend to restore the confidence of farmers and others in our rural community that has today been shattered?

Nick Ramsay: Weinidog, a allwch fod yn benodol iawn wrth ateb y cwestiwn ynghylch pryd rydych yn bwriadu dechrau'r broses frechu? Hefyd, a allech roi syniad i ni o'r amcangyfrif o gost y rhaglen frechu? Yn olaf, roedd gan ffermwyr hyder yn y Gweinidog a oedd â chyfrifoldeb am y maes hwn yn y Llywodraeth flaenorol. Fel y byddwch wedi nodi o'r sylwadau a wnaed heddiw, mae diffyg hyder mawr ymysg ein cymunedau gwledig y bydd y cynllun hwn yn cyflawni'r hyn rydych yn gobeithio amdano. Rwy'n mawr obeithio eich bod yn iawn, Weinidog, oherwydd mae'n amlwg eich bod yn mynd i lynu wrth y camau gweithredu hyn. Sut rydych yn bwriadu adfer hyder ffermwyr a phobl eraill sydd yn ein cymunedau gwledig, wedi i'r hyder hwnnw gael ei ddryllio heddiw?

John Griffiths: We are going to continue to work in very close partnership with the farming industry and other stakeholders by actually getting on and doing something. Vaccinating badgers in the intensive action area will start this summer. The cost is around £1 million per year, but we will have to revisit the figure as we implement the vaccination programme.

John Griffiths: Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos iawn â'r diwydiant ffermio a rhanddeiliaid eraill gan symud ymlaen a gweithredu. Bydd brechu moch daear yn yr ardal gweithredu dwys yn dechrau yn yr haf. Bydd y gost tua £1 miliwn y flwyddyn, ond bydd yn rhaid inni ailedrych ar y ffigur wrth inni roi'r rhaglen frechu ar waith.

We are determined to continue working with the farming industry and all stakeholders in addressing this terrible disease and its unacceptable impacts on cattle farmers, the wider rural community and Welsh Government budgets. I very much hope that all of us—all partners and stakeholders—can now unite around this badger vaccine programme.

Rydym yn benderfynol o barhau i weithio gyda'r diwydiant ffermio a'r holl rhanddeiliaid wrth fynd i'r afael â'r clefyd erchyll hwn a'i effeithiau annerbyniol ar ffermwyr gwartheg, y gymuned wledig ehangach a chyllidebau Llywodraeth Cymru. Rwy'n mawr obeithio y gallwn oll—pob partner a rhanddeiliad—ddod ynghyd yn awr ar y rhaglen brechu moch daear.

The Deputy Presiding Officer: Thank you, Minister. I realise that Members have deep and sincere opinions, and that many of them conflict on this matter. I do not believe that I heard anything that was out of order during that statement, but we are all obliged to ensure that any statement that we make in the Chamber could not easily be misconstrued by members of the public as to somehow condone unlawful or even illegal activity. Should I hear anything along those lines, it will of course be called out of order.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch, Weinidog. Rwy'n sylweddoli bod gan bob Aelod farn angerddol a diffuant, ac y bydd llawer ohonynt yn gwrthdaro ar y mater hwn. Ni chredaf imi glywed unrhyw beth a oedd allan o drefn yn ystod y datganiad, ond rhaid inni i gyd sicrhau nad ydym yn datgan unrhyw beth yn y Siambr a allai gael ei gamddechongli gan aelodau'r cyhoedd i fod yn caniatáu gweithgarwch anghyfreithlon. Os byddaf yn clywed unrhyw beth felly, bydd, wrth gwrs, yn cael ei alw allan o drefn.

Gorchymyn Deddf Cartrefi Symudol 1983 (Awdurdodaeth Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) (Cymru) 2012